# Cynllun Grant Technoleg Di-wifr Uwch

## Canllawiau i Ymgeiswyr

**Dyddiad cyhoeddi**: 30 Mehefin 2026

**Fersiwn**: 1.0

*Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r canllawiau hyn o bryd i'w gilydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf.*

## Tabl Cynnwys

1 Cyflwyniad ..... 5
1.1 Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac Uchelgais Gogledd Cymru ..... 5
1.2 Y Rhaglen Cysylltedd Digidol ..... 5
1.3 Cynllun Grant Technoleg Di-wifr Uwch ..... 6
1.4 Ystyriaethau Hanfodol i Ymgeiswyr ..... 6
1.4.1 Crynodeb o'r Cynllun Grant ..... 6
1.4.2 Gofynion cyllid cyfatebol ..... 7
1.4.3 Tryloywder ariannol ..... 7
1.4.4 Ffioedd ..... 7
1.4.5 Gofynion perfformiad ..... 7
1.5 Crynodeb ..... 7
1.6 Amserlen ..... 9
2 Cyllid ..... 10
2.1 Trosolwg ..... 10
2.2 Cyllid Cyfatebol ..... 11
2.3 Rheoli Cymhorthdal ..... 11
2.4 Amseru'r Gwariant ..... 11
2.5 Gwariant Cymwys ac Anghymwys ..... 12
2.6 Cytundeb Cyllid Grant (GFA) ..... 14
2.6.1 Templed GFA ..... 14
2.6.2 Atodlen 1 Telerau ac Amodau GFA ..... 14
2.6.3 Atodlen 2 Canlyniadau a Cherrig Milltir GFA ..... 14
2.6.4 Atodlen 3 Rhagolwg Gwariant GFA ..... 14
2.6.5 Ffi GFA ..... 14
2.7 Hawliadau ..... 14
2.7.1 Proses hawlio ..... 14
2.7.2 Tystiolaeth hawliadau ..... 15

3 Gofynion Dylunio'r Prosiect 15
3.1 Technoleg Di-wifr Uwch 16
3.2 Gofynion Cynaliadwyedd Masnachol 17
3.3 Gofynion Ariannol 17
3.4 Gofynion Cyflawni'r Prosiect 18
4 Meini Prawf Cymhwyso 19
4.1 Cymhwysedd Ymgeiswyr 19
4.2 Cymhwysedd Lleoliad y Prosiect 20
4.3 Hyfywedd ariannol 20
4.4 Cymhwysedd Prosiect a Chanlyniadau Gorfodol 20
4.5 Gofynion Caffael 21
4.6 Canlyniadau Gorfodol 22
4.6.1 Canlyniadau ychwanego 23
4.7 Gweithgareddau a Chostau Anghymwys 23
5 Cymorth I Ymgeiswyr 24
5.1 Gweminar Briffio 24
5.2 Cwestiynau Eglurhad 24
6 Proses Ymgeisio 24
6.1 Trosolwg 24
6.2 Cam Mynegi Diddordeb (EOI) 25
6.2.1 Cyflwyniad EOI 25
6.2.2 Asesiad EOI 25
6.2.3 Penderfyniad EOI 25
6.3 Cyfnod Ymgeisio 25
6.3.1 Cyflwyno cais 25
6.3.2 Asesu ceisiadau 25
6.3.3 Penderfyniad ar y cais 26
7 Asesiad 26
7.1 Sut Fydd Ceisiadau'n Cael eu Hasesu 26
7.1.1 Cymhwysedd 26

7.1.2 Triage 26
7.1.3 Gwelliant parhaus a gwerthuso allanol 27
7.2 Methodoleg Sgorio 27
8 Monitro Ac Arfarnu 28
8.1 Cyflawni a Monitro Ariannol 28
8.1.1 Cyfarfod Dechrau Prosiect (PIM) 28
8.1.2 Monitro ac adrodd prosiectau 28
8.1.3 Newidiadau i'r prosiect 29
8.2 Monitro Buddion 29
8.3 Gwersi a Ddysgwyd 30
8.4 Astudiaethau Achos 30
8.5 Gwelliant Parhaus a Gwerthuso Allanol 30
9 Cyd-Destun Polisi A Rhaglen 30
10 Gwybodaeth A Chanllawiau Ychwanegol 30
11 Atodiadau 32
Atodiad 1. Templed Cytundeb Cyllid Grant 32
Atodiad 2. Proses Hawlio Grantiau Ariannol 32
Atodiad 3. Nodyn Preifatrwydd 32

# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth allweddol am y broses ymgeisio a'r grantiau sydd ar gael o dan Gynllun Grant Technoleg Di-wifr Uwch Uchelgais Gogledd Cymru. Dylai pob ymgeisydd ei darllen yn llawn cyn cyflwyno cais.

## 1.1 Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac Uchelgais Gogledd Cymru

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, a elwir yn Uchelgais Gogledd Cymru, yn gorff rhanbarthol sydd â chyfrifoldebau am drafnidiaeth ranbarthol a chynllunio strategol yn ogystal â chyfrifoldeb i wella a hyrwyddo lles economaidd gogledd Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys y chwe awdurdod lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae partneriaeth ehangach Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai sy'n gyfrifol ynghyd â'r chwe awdurdod lleol a'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol am gyflwyno'r Cynllun Twf. Nod y Cynllun Twf yw dod â dros £1 biliwn o fuddsoddiad i'r Gogledd er mwyn cynhyrchu dros 4,000 o swyddi newydd a chynnydd mewn GVA. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi £240 miliwn o gyfalaf ar y cyd dros gyfnod o 15 mlynedd, gyda'r gweddill wedi'i ddenu o ffynonellau preifat a chyhoeddus.

## 1.2 Y Rhaglen Cysylltedd Digidol

Mae'r rhaglen Cysylltedd Digidol yn un o nifer o raglenni Cynllun Twf Gogledd Cymru ac mae wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â heriau cysylltedd yng ngogledd Cymru. Er bod gweddill y DU wedi elwa ar wasanaethau gwell yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oes gan lawer o'n cymunedau gysylltedd band eang symudol a sefydlog cryf. Bydd y rhaglen yn gwella gallu ein rhanbarth i ddatblygu technolegau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am wasanaethau digidol ac elwa o gysylltedd cyflym o ansawdd uchel.

Mae gan y rhaglen Cysylltedd Digidol ddyraniad cyllid o £29.81 miliwn o'r Cynllun Twf a bydd yn ysgogi cyllid pellach gan y sectorau cyhoeddus a phreifat. Bydd y rhaglen yn cyflwyno cysylltedd cynaliadwy i'r rhanbarth, yn denu mewnfuddsoddiad ac yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer mwy o drigolion a busnesau gan arwain at Werth Ychwanegol Gros (GVA) ychwanegol a chreu swyddi.

Ar hyn o bryd mae'r rhaglen Cysylltedd Digidol yn cynnwys tri phrosiect, un ohonynt yw'r Prosiect Campysau Cysylltiedig. Mae amcanion y prosiect hwn fel a ganlyn:

- Creu 120 - 200 o swyddi newydd yng ngogledd Cymru drwy'r prosiect erbyn 2033
- Creu GVA ychwanegol net o £41m - £62m drwy'r prosiect erbyn 2033
- Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o rhwng £29.6m a £37.6m drwy'r rhaglen erbyn 2033
- Galluogi 100-200 o ddefnyddwyr busnes a'r sector cyhoeddus yng ngogledd Cymru i fanteisio ar gysylltedd di-wifr* datblygedig erbyn 2030

**Fel y'i diffinnir yn y [Strategaeth Seilwaith Di-wifr y DU](#)*

## 1.3 Cynllun Grant Technoleg Di-wifr Uwch

Mae'r Cynllun Grant Technoleg Di-wifr Uwch yn elfen allweddol o'r Prosiect Campysau Cysylltiedig. Mae wedi'i gynllunio i helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat yng ngogledd Cymru i uwchraddio neu wella eu defnydd o systemau Technoleg Di-wifr Uwch. Gyda gwella seilwaith digidol ar draws ein rhanbarth, y nod yw helpu i greu cymunedau cryfach, busnesau mwy arloesol ac economi fwy gwydn.

Mae technolegau Technoleg Di-wifr Uwch yn chwyldroi'r ffordd y mae busnesau'n gweithredu trwy ddarparu cysylltedd cyflymach, mwy dibynadwy a mwy diogel. Yn y cyd-destun hwn, mae technolegau Technoleg Di-wifr Uwch yn cynnwys yr ystod lawn o ddatrysiadau di-wifr a ddefnyddir mewn gwasanaethau cyfathrebu. Er y bydd rhwydweithiau 5G yn faes ffocws sylweddol, rydym hefyd yn cydnabod rôl bwysig Rhyngrwyd Pethau (IoT), Wi-Fi a chyfathrebu lloeren.

Mae cyfanswm o hyd at £18.8 miliwn o gyllid cyfalaf ar gael ar hyn o bryd rhwng 2026 a 2030. Mae cyllid grant yn cwmpasu cam gweithredu prosiectau yn unig; ni fydd yn cwmpasu'r cam cyflawni. Ar ôl ei weithredu, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithredu'r datrysiad am o leiaf tair blynedd, gan barhau i werthuso effaith yr ateb yn unol â'r tabl isod:

| Gwerth y prosiect | Effaith wedi'i mesur dros |
|---|---|
| Hyd at £500,000 | 3 blynedd |
| £500,000 - £1m | 5 mlynedd |
| Dros £1m | Hyd at 2036 |

Mae Uchelgais Gogledd Cymru'n cadw'r hawl i ddiweddaru'r canllawiau hyn o bryd i'w gilydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru.

Er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau esblygol Uchelgais Gogledd Cymru ar gyfer cysylltedd Technoleg Di-wifr Uwch, gellir gosod meini prawf gwahanol ar gyfer pob rownd o gyllid, ac o fewn pob rownd bydd y meini prawf asesu yn blaenoriaethu ceisiadau sy'n cyd-fynd fwyaf ag amcanion Uchelgais Gogledd Cymru.

## 1.4 Ystyriaethau Hanfodol i Ymgeiswyr

Cynghorir ymgeiswyr i ystyried y materion a nodir isod cyn penderfynu a ddylid cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb (EOI) i'r Cynllun:

### 1.4.1 Crynodeb o'r Cynllun Grant

Mae'r Cynllun yn gweithredu ar sail gystadleuol a bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu i'r ceisiadau sydd â'r sgôr uchaf ym mhob rownd, ar yr amod eu bod yn bodloni'r egwyddorion a'r meini prawf a nodir isod. Mae'r penderfyniad a ddylid dyfarnu grant yn cael ei wneud ar ddisgresiwn llwyr Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd y cynllun yn gweithredu gyda datganiadau o ddiddordeb (EOI) yn y lle cyntaf, ac yna gwahoddiad i'r

datganiadau o ddiddordeb cymwys gyflwyno cais llawn. Gellir ystyried gwerthuso cynigion prosiect yn gyflymach os yw'r ymgeiswyr yn dangos y gallant gyflawni gwaith yn fuan.

### 1.4.2 Gofynion cyllid cyfatebol

Bydd gofyn i ymgeiswyr gael **o leiaf 50%** o gyllid cyfatebol i gyflawni eu prosiect. Gall hyn ddod o arian y busnes neu raglenni grant eraill, ar yr amod bod y rhain wedi'u cadarnhau a'u bod yn cyd-fynd â'r prosiect. Gall cyfraddau cyllid cyfatebol amrywio yn dibynnu ar y targedau effaith a buddion sy'n gysylltiedig â phob prosiect yn amodol ar gymeradwyaeth y panel grantiau. Bydd prosiectau sy'n ymrwymo i gyfradd uwch o arian cyfatebol yn derbyn ystyriaeth fwy ffafriol (gweler Adran 2.1 am fwy o wybodaeth).

### 1.4.3 Tryloywder ariannol

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth ariannol fanwl i gefnogi eu cais a all gynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif fel cyfrifiadau enillion ar fuddsoddiad (ROI) neu ragolygon ariannol. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gofyn am wybodaeth o'r fath i sicrhau bod y Cynllun a'r holl grantiau a ddyfarnwyd drwy'r Cynllun yn cydymffurfio â'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau (gweler Adran 2.). Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn trin gwybodaeth o'r fath yn gwbl gyfrinachol.

### 1.4.4 Ffioedd

I gefnogi gwaith y gronfa grantiau, codir ffi weinyddol o 1-3% o ddyfarniadau cyfalaf ar dderbynnydd y grant ar ôl llofnodi'r Cytundeb Cyllid Grant. Gellir addasu'r ffi weinyddol yn dibynnu ar raddfa a chymhlethdod y wobr.

### 1.4.5 Gofynion perfformiad

Bydd meini prawf perfformiad gofynnol yn cael eu cytuno rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a derbynwyr y grantiau. Bydd yn rhaid cyflwyno tystiolaeth i ddangos fod y cais yn cydymffurfio â'r meini prawf perfformiad y cytunwyd arnynt a bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnal gwerthusiadau perfformiad cyfnodol i ddilysu deilliannau.

## 1.5 Crynodeb

| | |
|---|---|
| Cyflawni'r prosiect | Rhaid i ddatrysiadau technegol ac achos(ion) defnydd fod yn weithredol erbyn 31 Mawrth 2030, a chyfnod o wireddu buddion wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2033. |
| Cyfanswm y cyllid sydd ar gael | Hyd at £18.8m o gyllid cyfalaf |

| | |
|---|---|
| Isafswm ac uchafswm<br><br>gwerth y grant | £20,000 - £2,000,000 o gyllid cyfalaf.<br><br>Dan amgylchiadau eithriadol, gellid ystyried ceisiadau sy'n gofyn am gyllid o fwy na £2 miliwn pan fo ymgeiswyr yn medru dangos yn glir fod yna lefelau uwch cymesur o fuddion ac effaith sy'n cyd-fynd ag amcanion y cynllun. |
| Hawliadau Grant | Dylid cyflwyno hawliadau grant bob chwarter a rhaid i'r holl weithgareddau a ariennir gael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2030. |
| Arian cyfatebol | Dylai ymgeiswyr ddarparu o leiaf 50% o gyllid cyfatebol, Bydd prosiectau sy'n cyfrannu mwy na 50% o arian cyfatebol yn sgorio'n gynyddol uwch yn ystod y gwerthuso o gymharu â'r rhai sy'n bodloni isafswm y gofyn yn unig. |
| Pwy gaiff wneud cais? | Rhaid i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru a rhaid i brosiectau gael eu cynnal yn y rhanbarth. Mae rhanbarth gogledd Cymru yn cynnwys siroedd Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.<br><br>Mae'r cynllun yn agored i bob sector diwydiant ac i ymgeiswyr yn y sector cyhoeddus a phreifat. Bydd gwobrau'n cael eu rhoi i fusnesau neu sefydliadau unigol yn unig. Bydd modd iddynt weithio gyda phartneriaid, ond bydd y Cytundeb Grant gydag un ymgeisydd arweiniol. |
| Sgôp y prosiect | Mae'r cyllid ar gyfer gweithredu datrysiadau technoleg byw sy'n galluogi un neu fwy o achosion defnydd di-wifr datblygedig i ddatrys materion yn y byd go iawn mewn amgylchedd byw, megis gwelliannau i weithrediadau, prosesau a gwasanaethau busnes presennol.<br><br>Dylai prosiectau greu swyddi yn ogystal â buddion economaidd, cymdeithasol a/neu amgylcheddol megis cynnydd cynhyrchiant, effeithlonrwydd, arbedion costau, gwelliannau lles ac ati. |

| | |
|---|---|
| Tu Allan i'r Sgôp | Ni fydd y cynllun grant hwn yn ariannu gwelyau profi, treialon, na chamau gwaith ymchwil a datblygu datrysiadau technegol. |

## 1.6 Amserlen

| Gweithgareddau Pwysig | Dyddiad |
|---|---|
| Cystadleuaeth | |
| Cyfnod EOI | 1 Gorffennaff – 11 Awst 2026, 12:00 (hanner dydd) |
| Gweminar Briffio'r Cynllun Grant | 14 Gorffennaf 2026, 10:30 |
| Dyddiad cau ar gyfer cwestiynau eglurhad | 10 Awst 2026, 16:00 |
| Amcan ddyddiad hysbysu'r ymgeiswyr * | w/d 1 Medi 2026 |
| Cyfnod ymgeisio | 8 Medi – 19 Hydref 2026, 12:00 (hanner dydd) |
| Dyddiad cau cwestiynau eglurhad ceisiadau | 16 Hydref 2026, 16:00 |
| Amcan ddyddiad hysbysu'r ymgeiswyr * | w/d 23 Tachwedd 2026 |
| Ymgeiswyr yn llofnodi'r Cytundebau Cyllid Grant | erbyn 9 Rhagfyr 2026 |
| *Gallai ceisiadau am grantiau dros £500,000 gymryd mwy o amser i'w hasesu | |
| Gweithredu | |
| Prosiectau ar waith a'r Cyfnod Cyllid Grant yn dechrau | 15 Rhagfyr 2026 |
| Hawliadau grant<br><br>Gall ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau grant ar gyfer gwariant cymwys bob chwarter a | Fel a welir yn y GFA |

| | |
|---|---|
| bydd amserlen benodol yn y cytundeb cyllid grant | |
| Dyddiad cau gweithredu<br><br>Rhaid i'r datrysiad a'r achos(ion) defnydd fod yn weithredol ac yn cael eu defnyddio erbyn 31 Mawrth 2030 | 31 Mawrth 2030 |
| Gwireddu buddion<br><br>Rhaid cwblhau cyfnod o wireddu buddion cyn 31 Mawrth 2033 | 31 Mawrth 2033 |
| Pwynt Gwirio Gwireddu Buddion 1<br><br>Astudiaeth Achos | Mawrth 2030 |
| Gweithrediad | |
| Mae'r datrysiad a'r achosion defnydd yn parhau i gael eu gweithredu mewn amgylchedd byw | O'i weithredu i o leiaf tair blynedd ar ôl gweithredu (gweler Adran 1.3) |
| Pwyntiau Gwireddu Buddion 2 a 3<br><br>Astudiaeth Achos wedi'i Diweddaru | Mawrth 2031 a Mawrth 2032 |
| Cyfnod Cyllid Grant yn dod i ben | 31 Mawrth 2033 |

# 2 Cyllid

## 2.1 Trosolwg

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn darparu cyllid grant cyfalaf hyd at gyfanswm y Cyllid sydd ar gael o hyd at £18.8 miliwn i gefnogi busnesau a sefydliadau i gyflawni prosiectau Technoleg Di-wifr Uwch yng ngogledd Cymru. Bydd dyfarniadau grant unigol rhwng £20,000 a £2,000,000.

Bydd y cyllid yn cael ei ryddhau fesul cam ac ni fydd y cyfan o'r £18.8m yn cael ei ymrwymo oni bai bod pob cam o'r cynllun yn darparu tystiolaeth y bydd y cynllun yn bodloni'r amcanion.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ariannu hyd at **50% o gostau gweithredu cymwys** pob prosiect. Rhaid cael tystiolaeth i ddangos **cynnydd cymesur mewn buddion a gwerth am arian** cyn gwneud cais am fwy o gyllid na'r lefel hon

### 2.2 Cyllid Cyfatebol

Mae angen cyllid cyfatebol gan bob derbynnydd grant sy'n cyfateb i **o leiaf 50%** o gost y prosiect. Gall hyn ddod o arian y busnes neu raglenni grant eraill, ar yr amod bod y rhain wedi'u cadarnhau a'u bod yn cyd-fynd â'r prosiect.

Gall cyfraddau cyllid cyfatebol amrywio yn dibynnu ar y targedau effaith a buddion sy'n gysylltiedig â phob prosiect, yn amodol ar gymeradwyaeth y panel grantiau. Gall prosiectau sy'n ymrwymo i ragori ar isafswm targedau y cynllun gael eu hystyried am gyfradd ariannu cyfatebol is, tra bo prosiectau sy'n ymrwymo i gyfradd uwch o arian cyfatebol yn derbyn ystyriaeth fwy ffafriol ond mae rhaid cyrraedd yr isafswm targedau.

Rhaid i gyllid cyfatebol fod yn gysylltiedig â chostau cyfalaf cymwys (neu refeniw cyfalafu). Dim ond costau cymwys a godwyd o ddyddiad cyflwyno'r cais y gellir eu hystyried fel cyllid cyfatebol. Mae unrhyw wariant cyn cymeradwyaeth y grant ar risg yr ymgeisydd.  Gellir hefyd ystyried costau cymwys a godwyd o ddyddiad cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb (EOI), lle cytunwyd ymlaen llaw gydag Uchelgais Gogledd Cymru.

Rhaid i'r ymgeisydd dalu am yr holl gostau sy'n ymwneud â gweithredu'r achos defnydd heb unrhyw gymhorthdal ar gael ar gyfer y rhain.

### 2.3 Rheoli Cymhorthdal


Ar gyfer prosiectau sy'n gofyn am grantiau hyd at £315,000 o werth, rhoddir cyllid fel cymhorthdal. Mae rheoliadau Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn berthnasol ac mae derbynwyr wedi'u cyfyngu gan gymorthdaliadau cronnus blaenorol y gallent fod wedi'u derbyn. I gael rhagor o wybodaeth am MFA, gweler canllawiau Llywodraeth y DU i fuddiolwyr ar MFA.

Ar gyfer prosiectau sy'n ceisio cymhorthdal sy'n fwy na throthwy MFA, bydd asesiad cymhorthdal annibynnol yn cael ei gynnal i sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer y dyfarniad.

### 2.4 Amseru'r Gwariant

Rhaid cwblhau'r holl weithgareddau a ariennir erbyn 31 Mawrth 2030. Bydd taliadau grant yn cael eu talu bob chwarter fel ôl-daliad ar gyfer Gwariant Cymwys. Rhaid i ymgeiswyr fod wedi gwario eu cyfraniad cyllid cyfatebol y cytunwyd arno erbyn 31 Mawrth 2030.

Rhaid i'r gweithredu gael ei gwblhau, y datrysiad a'r achos(ion) defnydd fod yn weithredol ac yn cael eu defnyddio erbyn 31 Mawrth 2030, a chyfnod o wireddu buddion wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2033 fan bellaf.




## 2.5 Gwariant Cymwys ac Anghymwys

Costau'r prosiect yw costau gweithredu'r datrysiad, ond nid costau gweithredu'r datrysiad na'r broses fusnes y mae'n ei chefnogi.

Yng nghyd destun y cynllun grant hwn, gallai costau'r prosiect gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- **Offer**: Prynu caledwedd neu offer newydd sy'n hanfodol i'r prosiect. Mae enghreifftiau'n cynnwys.
    - offer rhwydwaith (pryniant cyfalaf neu hawl defnydd na ellir ei ddiddymu);
    - dyfeisiau defnyddiwr terfynol (lle gall y defnyddiwr fod yn ddynol neu'n beiriant);
    - cyfleusterau (swyddfeydd, labordai, lleoliadau);
- **Meddalwedd a Thrwyddedau**: Prynu meddalwedd a thrwyddedau newydd i gefnogi'r datrysiad.
    - meddalwedd (trwyddedau meddalwedd parhaol sy'n cael eu categoreiddio fel Cyfalaf);
    - trwyddedau a hawlenni (trwyddedau un tro);
- **Gosod**: Costau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r offer neu'r seilwaith sydd eu hangen ar gyfer y datrysiad, gan gynnwys costau adnoddau.
- **Addasiadau i'r isadeiledd presennol:** Addasiadau neu uwchraddio systemau cyfredol i alluogi defnyddio'r datrysiad newydd.
- **Rheoli Prosiect:** Uchafswm o 10% o gostau staff cyfalafol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithredu'r prosiect o fewn y cyfnod gwariant a ganiateir.

**Nid yw** costau'r prosiect yn cynnwys:

- Gweithredu'r achos defnydd ar ôl gweithredu
- Costau gweithredol megis cynnal a chadw, costau cyfleustodau, taliadau data, trwyddedau meddalwedd a thanysgrifiadau cylchol
- Costau gweithredu staff: ymdrech staff i weithredu'r broses fusnes

- Hyfforddiant staff: costau ar gyfer addysgu a hyfforddi aelodau'r tîm i weithredu neu reoli'r dechnoleg neu'r prosesau newydd.

Er mwyn bod yn gymwys fel gwariant cymwys y gellir ei ariannu gan y Cynllun Grant Technoleg Technoleg Di-wifr Uwch, rhaid i gostau:

- gael eu dosbarthu fel cyfalaf o dan egwyddorion cyfrifyddu perthnasol;
- godi o fewn y cyfnod cyllido grant (oni bai bod cytundeb gyda Uchelgais Golgedd Cymru);
- fod yn net o'r TAW y gellir ei hadennill gan Gyllid a Thollau EF a gros o TAW na ellir ei hadennill (gweler Telerau ac Amodau'r grant am fanylion llawn);
- fod wedi'u priodoli'n uniongyrchol i weithredu'r datrysiad;
- allu cael eu cyfalafu a/neu eu trin fel gwariant cyfalaf; a
- chael eu categoreiddio fel un o'r canlynol:
    - Llafur
    - Deunyddiau
    - Contract
    - Costau uniongyrchol eraill y prosiect

Ni fydd y cynllun grant yn ariannu'r costau a ganlyn (nid yw'r rhestr hon yn gyflawn):

- gwelyau prawf neu dreialon;
- costau a ddosberthir fel refeniw, megis costau hyfforddi a chostau staff gweithredol;
- mewnbwn TAW y gellir ei adennill gan HMRC;
- rhwymedigaethau a gyfyd cyn cyhoeddi'r Cytundeb Grant hwn oni bai bod yr Awdurdod wedi cytuno arnynt yn ysgrifenedig;
- cynhyrchion neu wasanaethau a ddarperir gan Werthwyr Risg Uchel, yn unol â'u diffiniad yng nghyngor NCSC ar werthwyr risg uchel yn nhelathrebu'r DU - NCSC.GOV.UK;
- adloniant a fyddai'n fudd trethadwy i'r person sy'n cael ei ddiddanu, yn ôl rheoliadau treth cyfredol y DU;
- unrhyw daliad i gyflenwr na chafodd ei gaffael yn unol ag egwyddorion caffael Uchelgais Gogledd Cymru;
- taliadau a ad-dalwyd neu sydd i'w had-dalu gan grantiau sector cyhoeddus neu breifat eraill, neu unrhyw ffynhonnell arall; ac
- unrhyw weithgaredd caffael, masnachol, datblygu busnes neu gadwyn gyflenwi sydd ag unrhyw endid Rwsiaidd neu Felarwsaidd yng nghadwyn gyflenwi'r prosiect, gan gynnwys unrhyw nwyddau neu wasanaethau sy'n tarddu o ffynhonnell Rwsiaidd neu Felarwsaidd. Rhaid i ymgeiswyr hefyd sicrhau nad ydynt yn ymgysylltu ag unrhyw unigolyn neu sefydliad a ddynodwyd o dan reoliadau sancsiynau'r DU.
- taliadau banc a chyllid eraill, a llog dyled
- unrhyw weithgaredd a allai ddwyn gwarth ar enw da Uchelgais Gogledd Cymru neu unrhyw un o'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru.

Mae'r cytundeb cyllid grant templed cyhoeddedig yn darparu manylion llawn gwariant cymwys ac anghymwys.

## 2.6 Cytundeb Cyllid Grant (GFA)

### 2.6.1 Templed GFA

Mae copi o dempled y GFA ar gyfer y Cynllun wedi'i atodi er gwybodaeth yn Atodiad 1. Dylai ymgeiswyr ymgyfarwyddo â'r templed a sicrhau bod eu sefydliad yn gallu ymrwymo i gytundeb ag Uchelgais Gogledd Cymru ar y telerau a'r amodau hyn cyn cyflwyno EOI.

### 2.6.2 Atodlen 1 Telerau ac Amodau GFA

Mae'r Telerau ac Amodau a nodir yn Atodlen 1 y GFA yn berthnasol i bob grant ac nid oes modd eu trafod.

### 2.6.3 Atodlen 2 Canlyniadau a Cherrig Milltir GFA

Mae'r canlyniadau a'r cerrig milltir ar gyfer y prosiect wedi'u nodi yn Atodlen 2 ynghyd â'r dyddiadau y mae'n rhaid eu cyflawni yn eu herbyn. Bydd 5% o'r grant yn cael ei gadw nes bod y canlyniadau wedi'u gwirio gan Uchelgais Gogledd Cymru (gweler Adran 5) a gall methu â chyflawni'r canlyniadau neu'r cerrig milltir erbyn y dyddiadau y cytunwyd arnynt arwain at atal neu adennill rhywfaint neu'r cyfan o'r grant.

### 2.6.4 Atodlen 3 Rhagolwg Gwariant GFA

Mae'r rhagolwg gwariant ar gyfer y prosiect wedi'i nodi yn Atodlen 3. Pan fydd cost y prosiect yn fwy na'r Rhagolwg Gwariant, bydd y costau ychwanegol yn gyfrifoldeb i dderbynnydd y grant ac ni fydd gan Uchelgais Gogledd Cymru unrhyw orfodaeth i dalu mwy na'r Uchafswm a bennir yn y GFA. Pan fydd cost y prosiect yn llai na'r Rhagolwg Gwariant, bydd swm y grant sy'n daladwy yn lleihau *pro rata* yn gymharol â'r gostyngiad mewn gwariant. Felly, y grant sy'n daladwy fydd naill ai'r Uchafswm a bennir yn y GFA, neu'r gyfran gyfatebol o'r gwariant cymwys a achoswyd, pa un bynnag fydd y lleiaf.

### 2.6.5 Ffi GFA

Bydd ffi ymgeisio ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus i gefnogi costau cyflawni'r cynllun, gan gynnwys gweinyddu ac asesu. Bydd y cynllun yn nodi cyfradd addas i'w chodi am geisiadau yn seiliedig ar y dyfarniad grant a geisir, a disgwylir i hyn fod yn yr ystod o 1-3%.

## 2.7 Hawliadau

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno hawliadau grant bob chwarter gyda thystiolaeth gefnogol. Mae hawliadau yn cael eu gwirio o fewn 2 wythnos, gydag ymholiadau yn cael eu cyflwyno'n ysgrifenedig. Telir hawliadau cymeradwy 10-15 diwrnod ar ôl eu gwirio. Rhaid cwblhau'r holl weithgareddau a ariennir erbyn 31 Mawrth 2030.

### 2.7.1 Proses hawlio

cyflwyno ceisiadau grant yn unol â Phroses Hawlio Grant Ariannol Cynllun Twf Gogledd Cymru (Atodiad 3). Bydd derbynwyr grant yn derbyn canllawiau ar y broses hon yn y Cyfarfod Dechrau Prosiect (PIM) gan gynnwys cyfarwyddiadau ar sut a phryd y dylid cyflwyno hawliadau a'r telerau talu a fydd yn berthnasol. Telir y grant mewn ôl-daliadau yn seiliedig ar wariant prosiect cymwys a geir ac a dalwyd fel

y nodir yn y GFA. Pan ddarperir ar ei gyfer yn y GFA, gellir hawlio'r grant mewn rhandaliadau yn seiliedig ar broffil gwariant y prosiect.

### 2.7.2 Tystiolaeth hawliadau

Rhaid i hawliadau gael eu cefnogi gan y dystiolaeth ofynnol fel y nodir yn y canllawiau hawlio, wedi'i chrynhoi fel a ganlyn:

- Rhaid cefnogi hawliadau am offer, cyflenwadau a chostau llafur allanol a gaffaelir gan gyflenwyr trydydd parti gydag anfonebau cyflenwyr, tystiolaeth o dalu a chaffael yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru.
- Rhaid cefnogi hawliadau am gostau llafur mewnol gyda thaflenni amser a chyfrifon prosiect. Rhaid i'r ymgeisydd gadw anfonebau a thystiolaeth hawliadau eraill am y cyfnod a nodir yn y GFA a bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gofyn am samplau o'r rhain i gyd-fynd â phob hawliad.

# 3 Gofynion Dylunio'r Prosiect

Dylai ceisiadau:

- Ddisgrifio sut y bydd gweithredu datrysiadau Technoleg Di-wifr Uwch yn datrys materion yn y byd go iawn megis darparu gwelliannau i brosesau, gweithrediadau a gwasanaethau presennol yr ymgeisydd.
- Galluogi un neu fwy o achosion defnydd Technoleg Di-wifr Uwch.
- Disgrifio yn glir y datrysiad a'r dechnoleg Technoleg Di-wifr Uwch arfaethedig i'w defnyddio.
- Disgrifiwch yn glir yr achos(ion) defnydd i'w cyflawni, gan gynnwys yr her fusnes, y datrysiad arfaethedig, a'r buddion a'r effaith ddisgwyliedig.
- Dangoswch sut fydd y prosiect yn cynhyrchu buddion economaidd, cymdeithasol a / neu amgylcheddol cadarnhaol. Mae enghreifftiau'n cynnwys mwy o refeniw, enillion cynhyrchiant, arbedion costau, effeithlonrwydd, gwelliannau lles ac ati.
- Nodwch ddangosyddion perfformiad allweddol fydd yn cael eu defnyddio i fonitro'r buddion disgwyliedig.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried cynigion ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi menter hirdymor mwy, hyd yn oed os nad yw'r prosiect mwy yn barod eto o fewn yr un amserlen. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i brosiectau a ariennir gan y cynllun grant hwn ddangos eu bod yn hunangynhaliol.

Awgrymir i ymgeiswyr gysylltu ag Uchelgais Gogledd Cymru i gael trafodaeth ar addasrwydd cynigion cyn cyflwyno EOI ar y sail hon.

## *Beth yw achos defnydd Technoleg Di-wifr Uwch?*

Mae achos defnydd Technoleg Di-wifr Uwch yn disgrifio senario, proses, dull neu drafodiad penodol sy'n dibynnu ar ddefnyddio technolegau Technoleg Di-wifr Uwch. Nodwedd allweddol achos defnydd yw'r defnydd o gysylltedd di-wifr i gefnogi gweithgarwch busnes neu sefydliad.

Er enghraifft, gallai achos defnydd fod lle mae busnes neu sefydliad yn awtomeiddio proses gymhleth gan ddefnyddio rhwydwaith 5G ynghyd â synwyryddion a dyfeisiau deallus, gan fodloni gofynion ar gyfer lefelau uchel o ddiogelwch, dibynadwyedd, hyblygrwydd a rheolaeth dros gwmpas rhwydwaith wrth ymdrin â chyfeintiau uchel o ddata ar oedi isel. Gallai'r achos defnydd hwn ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau cynhyrchiant i'r busnes.

Nid yw defnyddio neu ymestyn cwmpas rhwydwaith di-wifr yn unig yn achos defnydd. Fodd bynnag, gall y cynllun grant ariannu cysylltedd sy'n hanfodol i gyflawni achosion defnydd.

Nid oes bwriad i'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio i ddatblygu cynhyrchion neu ddatrysiadau newydd, nac ar gyfer gweithgareddau ymchwilio. Mae'r ffocws ar wneud defnydd ymarferol o ddatrysiadau a thechnolegau presennol wedi'u galluogi gan gysylltedd Technoleg Di-wifr Uwch.

## 3.1 Technoleg Di-wifr Uwch

Gall technolegau Technoleg Di-wifr Uwch gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

### Technolegau Di-wifr Gellog

- **Rhwydweithiau 5G**: Y bumed genhedlaeth o rwydweithiau symudol sy'n cynnig cyflymderau uwch, oedi is a chapasiti uchel. Gall nodweddion allweddol eraill gynnwys:
    - Technoleg Tonnau Millimedr (mmWave)
    - Y gallu i dorri darnau o rwydweith (network slicing)

### Technolegau LAN di-wifr (Wi-Fi)

- **Wi-Fi 6 a 7**: Y safonau diweddaraf mewn technoleg Wi-Fi, yn darparu cyfraddau data cyflymach, mwy o gapasiti, a pherfformiad gwell mewn amgylcheddau dwys.

### Rhyngrwyd Pethau (IoT)

- Rhwydweithiau diwifr wedi'u cynllunio ar gyfer cyfathrebu pellteroedd hir gyda defnydd pŵer isel
    - NBIOT (IoT Narrowband) Pŵer Isel, Amrediad Hir
    - LoRaWAN Amrediad Hir hyd at 10km
    - Bluetooth Pŵer Isel (BLE) a ddefnyddir mewn dyfeisiau gwisgadwy

### Rhwydwaith Lloeren

Darpariaeth byd-eang, gan gynnwys ardaloedd anghysbell

Technolegau Cyflymder-Uchel Amdrediad-Byr

- UWB Ultra-Wideband
- Tracio dan do
- Adnabod Amledd Radio (RFID)

## 3.2 Gofynion Cynaliadwyedd Masnachol

Dylai prosiectau fod yn rhan o fap cyflawni tymor hwy yr ymgeisydd ar gyfer mabwysiadu technolegau Technoleg Di-wifr Uwch i ddarparu buddion busnes. Dylai prosiectau gyflymu sut mae'r sefydliad yn mabwysiadu'r technolegau hynny trwy ddarparu tystiolaeth ac allbynnau i lywio a chefnogi'r achos busnes dros gynnal yr achos defnydd ar ôl i'r cyfnod cyllid grant ddod i ben ac ar gyfer mabwysiadu a buddsoddi'n ehangach mewn 5G a thechnolegau Technoleg Di-wifr Uwch.

Dylid amlinellu'n glir effaith y prosiect ar weithrediadau'r ymgeisydd a phenderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol ynghylch mabwysiadu technoleg di-wifr uwch.

Dylai ceisiadau esbonio sut y bydd y prosiect yn llywio penderfyniadau yn y dyfodol i fabwysiadu a buddsoddi mewn technolegau technoleg di-wifr uwch. Byddai ymateb da yn cynnwys trafod y mesurau ariannol a strategol allweddol a fydd yn llywio'r penderfyniadau hynny ac yn darparu manylion am y gwerthoedd penodol sydd eu hangen i gyfiawnhau mabwysiadu a buddsoddi. Er enghraifft, gallwch disgrifio'r cyfnod ad-dalu disgwyliedig a sut rydych chi'n disgwyl ei gyflawni. Mae mesurau eraill a ddefnyddir yn gyffredin yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Cyfradd Enillion Mewnol, Gwerth Presennol Net, Enillion ar Fuddsoddiad, Cymhareb Cost Budd a Dadansoddiad Adennill Costau Mae rhyddid i chi i ddisgrifio unrhyw fesurau sy'n berthnasol i'ch penderfyniad.

Dylid diffinio nodau'r prosiect, megis lleihau costau gweithredol, cynhyrchu refeniw, cynyddu cynhyrchiant, neu ganlyniadau eraill sy'n berthnasol i benderfyniadau yn y dyfodol i fuddsoddi mewn datrysiadau di-wifr datblygedig.

Dylai prosiectau gefnogi mabwysiadu technolegau technoleg di-wifr uwch gan ddiwydiant ehangach trwy ledaenu gwersi a ddysgwyd a mecanweithiau eraill megis digwyddiadau diwydiant.

## 3.3 Gofynion Ariannol

Os y gwahoddir i wneud cais llawn, bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu manylion am yr holl gostau cyfalaf a refeniw sy'n ffurfio cyfanswm costau'r prosiect dros ei oes a nodi gwerth y cyllid grant cyfalaf y gofynnir amdano.

Dylai ceisiadau ddisgrifio pam fod angen cyllid grant er mwyn i'r prosiect fynd rhagddo. Bwriedir i'r gystadleuaeth ddarparu cyllid i gefnogi mabwysiadu datrysiadau technoleg di-wifr uwch lle mae rhwystr ariannol yn bodoli. Gallai rhwystrau ariannol gynnwys costau uchel technolegau newydd dros ddatrysiadau cenhedlaeth hŷn, neu gyfyngiadau adnoddau a fyddai fel arall yn oedi gweithredu, neu ansicrwydd sy'n effeithio ar yr enillion disgwyliedig ar fuddsoddiad.

Dylai'r ateb i'r cwestiwn hwn ategu'r ymateb a roddir i gynaliadwyedd masnachol. Er enghraifft, os ydych wedi trafod mesur ariannol penodol (e.e. cyfradd enillion mewnol), gallai'r ymateb hwn nodi sut y byddai'r grant yn gwella'r mesur hwnnw.

### 3.4 Gofynion Cyflawni'r Prosiect

Dylai ymgeiswyr ddisgrifio sut y bydd y datrysiad technegol a'r achos(ion) defnydd yn weithredol ac yn cael eu defnyddio erbyn mis Mawrth 2030.

Dylai'r ceisiadau hefyd ddisgrifio sut y bydd y prosiect yn cael ei weithredu a'i redeg dros ei oes a sut y bydd yn cwblhau'r gweithredu ac yn defnyddio'r holl gyllid grant erbyn y Terfyn Amser Gweithredu.

Dylid rheoli cyflawniad prosiectau yn unol ag arfer dda; er enghraifft, yn unol â Prince2 neu fethodoleg debyg. Dylai rheolwr prosiect gyda chefnogaeth weithredol briodol reoli'r prosiect gan ddefnyddio offer rheoli cydnabyddedig gan gynnwys cynllun prosiect manwl a phroses rheoli risg.

Dylai prosiectau fod â dealltwriaeth glir o'r gweithgareddau cyflawni allweddol a'u pwrpas. Dylent fod yn eglur o ran y pwyntiau penderfynu allweddol a'r adnoddau dynol a'r nwyddau a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer cyflawni'n llwyddiannus.

Dylai ceisiadau ddisgrifio'r gweithgareddau newid busnes a fydd yn ymgorffori'r datrysiad newydd ym mhrosesau'r sefydliad.

| Cam y prosiect | Disgrifiad |
|---|---|
| Gweithredu | Gweithredu datrysiad technoleg i alluogi achosion defnydd Technoleg Di-wifr Uwch mewn lleoliad byd go iawn. Rhaid i'r datrysiad a'r achosion defnydd fod yn weithredol ac yn cael eu defnyddio, a chyfnod o wireddu buddion wedi'i gwblhau, cyn mis Mawrth 2033.<br><br>Gall cyllid grant dalu hyd at 50% o gostau cymwys y prosiect a rhaid ei wario erbyn 31 Mawrth 2030. Rhaid i arian cyfatebol dalu gweddill costau'r prosiect a rhaid ei wario erbyn 31 Mawrth 2030 (gweler Adran 1.4.2). |
| Gweithrediad | Gweithrediad parhaus yr achosion defnydd mewn lleoliad o'i dechrau hyd at o leiaf ddiwedd y Cyfnod Cyllid Grant.<br><br>Rhaid i'r ymgeisydd dalu am holl gostau'r cam gweithredol. |

# 4 Meini Prawf Cymhwyso

## 4.1 Cymhwysedd Ymgeiswyr

Mae'r gystadleuaeth yn agored i fusnesau a sefydliadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus, y byd academaidd, RTO, dielw ac elusennol. Mae'n agored i bob sector diwydiant.

Gall prosiectau gynnwys dull cydweithredol rhwng sawl sefydliad, ond rhaid i'r cais gael ei wneud gan un sefydliad arweiniol sy'n gallu ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant (**'GFA'**) gydag Uchelgais Gogledd Cymru. Yn achos ceisiadau cydweithredol, rhaid enwi pob sefydliad yn y cais cydweithredol a rhaid esbonio'r rôl y byddant yn ei chwarae wrth gyflawni'r prosiect yn llawn. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau arweiniol ymrwymo i gytundeb cydweithredu gyda'r sefydliadau eraill a enwir yn y cais. Rhaid i gytundebau cydweithredol gynnwys yr holl ddarpariaethau cyfreithiol angenrheidiol a rhaid iddynt fodloni gofynion y Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (gweler 2.3). Rhaid darparu copi o'r cytundeb cydweithredu i Uchelgais Gogledd Cymru fel amod cynsail.

Rhaid i'r ymgeiswyr fod yn fusnesau neu sefydliadau sy'n bwriadu mabwysiadu technolegau Technoleg Di-wifr Uwch. Dylai'r cynigion ddangos yn glir sut y bydd y prosiect yn effeithio ar weithrediadau'r buddiolwyr a llywio eu penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol. Ni fydd y gystadleuaeth yn ystyried ceisiadau gan gyflenwyr sy'n ceisio datblygu datrysiad di-wifr i'w werthu i eraill.

Gall sefydliad gyflwyno mwy nag un cais ar gyfer gwahanol brosiectau. Bydd pob cais yn cael ei asesu ar ei rinweddau ei hun, a rhaid i bob un gynnwys ei gyllid cyfatebol ei hun. Rhaid i bob cais ddangos achos defnydd. Rhaid i geisiadau fod yn hyfyw fel prosiectau annibynnol; ni allant fod yn ddibynnol ar lwyddiant cymwysiadau eraill.

### 4.2 Cymhwysedd Lleoliad y Prosiect

Rhaid cyflawni prosiectau yng ngogledd Cymru sy'n cynnwys siroedd Ynys Mon, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Golyga hyn fod yn rhaid i weithgareddau gosod a gweithredu'r prosiect ddigwydd o fewn ffiniau daearyddol y rhanbarth. Yng ngogledd Cymru y dylid defnyddio a gweithredu'r offer sy'n cael ei brynu.

Gellir prynu offer a meddalwedd gan gyflenwyr nad ydynt yn y DU.

### 4.3 Hyfywedd ariannol

Rhaid i ymgeiswyr fod yn hyfyw yn ariannol, sy'n cynnwys:

- Nid yw mwy na hanner cyfalaf y sefydliad wedi diflannu oherwydd colledion cronedig.
- Nid yw'r sefydliad yn destun achos ansolfedd ar y cyd ac nid yw'n bodloni'r meini prawf o dan gyfraith y DU ar gyfer cael ei roi mewn achos ansolfedd ar y cyd ar gais ei gredydwyr.
- Nid yw'r sefydliad wedi derbyn cymorth achub lle nad yw wedi ad-dalu'r benthyciad neu derfynu'r warant eto.
- Nid yw'r sefydliad wedi derbyn cymorth ailstrwythuro lle mae'n dal i fod yn destun cynllun ailstrwythuro.

Gall cwmni newydd nad yw'n bodloni'r gofynion uchod wneud cais am gyllid. Bydd angen gwarantwr, sef o leiaf un sefydliad sy'n creu sefydliad y cwmni, ar gyfer cyflawni'r prosiect ac i fod yn gyfrifol am y gwariant, gan gynnwys yr arian cyfatebol. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn unrhyw gytundeb cyfreithiol ar gyfer cyllid rhwng yr ariannwr ac ymgeisydd llwyddiannus. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i gyfrifon o leiaf un sefydliad sy'n creu'r cwmni gael eu hasesu fel rhan o'r cais, a dylai hyn fodloni'r meini prawf hyfywedd ariannol a nodir uchod.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnal diwydrwydd dyladwy ariannol i sicrhau bod ymgeiswyr llwyddiannus yn bodloni'r gofynion hyfywedd ariannol. Mae pob ymgeisydd yn destun proses diwydrwydd dyladwy ac asesiad risg Uchelgais Gogledd Cymru.

### 4.4 Cymhwysedd Prosiect a Chanlyniadau Gorfodol

Rhaid i geisiadau prosiect:

- Ddangos gofyn clir am ddatrysiadau Technoleg Di-wifr Uwch a budd economaidd clir ar gyfer y cyllid sy'n fwy na throthwy isafswm y cynllun.

- Dangos, trwy fesurau ariannol priodol, y bydd y prosiect yn cyflawni cyfradd ddychwelyd ar fuddsoddiad sy'n cyfateb i dalu'n ôl y cyllid grant yn llawn o fewn tair blynedd.
- Manylu ar gynlluniau creu swyddi uniongyrchol neu anuniongyrchol, sy'n cynnwys ymrwymiad i greu swyddi neu brentisiaethau yn ogystal â chynllun clir ynghylch sut y byddant yn cael eu creu yn y tymor canolig i'r hirdymor o ganlyniad i'r buddsoddiad. Y gyfradd ddisgwyliedig o greu swyddi yw
    - o 1 FTE (Cyfwerth ag Amser Llawn) fesul £90,000 - £120,000 o gyllid a ddyfernir. Bydd yr opsiwn i recriwtio prentisiaid hefyd yn cael ei gynnig, naill ai'n uniongyrchol gysylltiedig â'r buddsoddiad neu yn y busnes ehangach (yn anuniongyrchol).
- Ymrwymo i ofyn arian cyfatebol sydd o leiaf 50% mewn arian parod, yn amodol ar y buddion a gronnir i un neu fwy o fusnesau.
- Dangos ymrwymiad i leihau allyriadau carbon a gwella amrywiaeth bywyd gwyllt (gan gynnwys cyfatebolion gweithredol a chyfwerthiadau carbon deuocsid) lle bo hynny'n ymarferol.
- Datblygu achos defnydd i'w gyhoeddi gan Uchelgais Gogledd Cymru.
- Cydymffurfio â rhwymedigaethau Gwerth Cymdeithasol a chyfrannu trwy gaffael.

### 4.5 Gofynion Caffael

Rhaid i ymgeiswyr gaffael cyflenwyr yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae'r trothwyon a'r gofynion prynu ar gyfer y cynllun hwn fel a ganlyn:

| Gwerth cytundeb (yn cynnwys TAW) | Gofynion | Cofnodion i'w cadw |
|---|---|---|
| O dan £10,000 | • Un dyfynbris ysgrifenedig gan gyflenwr priodol | • Dyfynbris wedi'i dderbyn<br>• Rhesymeg tu ol i ddewis y cyflenwr |
| £10,000 - £75,000 | • Tri dyfynbris ysgrifenedig<br>• Gosod meini prawf gwerthuso clir o flaen llaw<br>• Dewis y cyflenwr sy'n cynnig y gwerth gorau am arian yn unol ag egwyddorion Uchelgais Gogledd Cymru | • Gwahoddiad i dendro<br>• Dyfynbrisiau wedi'u derbyn<br>• Nodiadau asesu a scorio. Penderfyniad gwobrwyo a rhesymeg |
| Dros £75,000 | • Cynnal proses caffael gystadleuol (cynnig i dendro), oni bai bod | • Full procurement documentation<br>• Nodiadau asesu a scorio. |

| | | |
|---|---|---|
| | eithriad clir a thystiol yn gymwys<br>• Creu Adroddiad Gwerthuso Cryno i'w lofnodi gan Uchelgais Gogledd Cymru cyn ei ddyfarnu | • Adroddiad Gwerthuso Cryno |

Ar gyfer pob cytundeb a ddyfarnwyd gyda chyfanswm gwerth uwch na £75,000 (gan gynnwys TAW) rhaid paratoi a chyflwyno Adroddiad Gwerthuso Cryno. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys yr elfennau a ganlyn:

- Disgrifiad o Nwyddau/Gwasanaethau: Trosolwg cryno o'r nwyddau neu'r gwasanaethau a gaffaelwyd.
- Crynodeb o'r Broses Gaffael: Amlinelliad byr o'r weithdrefn gaffael a ddilynwyd, gan gynnwys camau allweddol a phwyntiau penderfynu.
- Crynodeb o'r Gwerthuso: Crynodeb o'r meini prawf gwerthuso a gymhwyswyd a deilliannau'r broses asesu.
- Argymhelliad Dyfarniad: Cyfiawnhad clir i'r cyflenwr neu'r contractwr a argymhellir, yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwerthuso.
- Cydymffurfio â rhwymedigaethau a chyfraniad Gwerth Cymdeithasol: Rhaid i ymgeiswyr ddangos y byddant yn mynd ar drywydd gwerth cymdeithasol trwy eu cyflenwyr. I gael arweiniad ar Werth Cymdeithasol, dilynwch y ddolen hon.

Rhaid cadw'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r broses gaffael a'i storio'n ddiogel, gan y gallai fod yn destun archwiliad neu adolygiad cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

### 4.6 Canlyniadau Gorfodol

Rhaid i bob prosiect a gefnogir drwy'r Cynllun gynhyrchu'r deilliannau isod:

1. **Cynnydd mesuradwy mewn cynhyrchiant neu effeithlonrwydd busnes.** Rhaid i welliannau a pherfformiad mewn un ardal beidio ag arwain at unrhyw ddirywiad yn yr ardal ehangach, a bydd gofyn i ymgeiswyr esbonio sut y bydd eu prosiect yn cyflawni'r amcan hwn. Bydd disgwyl i dderbynwyr grant hefyd wella perfformiad yn erbyn y meini prawf hyn dros amser i gadw i fyny â datblygiadau technolegol.

2. **Creu Swyddi** wedi'i fesur gan nifer y swyddi neu brentisiaethau uniongyrchol neu anuniongyrchol newydd nad oeddent yn bodoli o'r blaen yng Ngogledd Cymru a grëwyd oherwydd y buddsoddiad yn ystod neu ar ôl cyfnod cyfalaf y prosiect.

3. **Cytundeb i leihau allyriadau carbon** a gwella bioamrywiaeth (yn cynnwys elfennau cyfwerth â charbon deuocsid gweithredol ac ymgorfforedig) lle bo hynny'n bosibl. Bydd ymgeisywr yn defnyddio pob ymdrech resymol fel bo'r Prosiect:

- yn cyflawni gostyngiad mewn allyriadau egni gweithredol yn ymwneud â'r Prosiect
- yn lleihau carbon corfforol mewn perthynas â chasgliadau cyfalaf y Prosiect
- yn cyflawni effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth lle bo'n bosibl.

4. **Gwerth cymdeithasol** yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru. Rhaid i ymgeiswyr ddisgrifio unrhyw ganlyniadau gwerth cymdeithasol arfaethedig a sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni a'u mesur yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru.

Bydd prosiectau sy'n cynnig y canlyniadau a'r cyfraddau arian cyfatebol gorau yn denu sgôr uwch. Bydd y canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer pob prosiect, a'r dyddiadau erbyn pryd fydd angen cyflawni'r canlyniadau a'u tystiolaethu i Uchelgais Gogledd Cymru, yn cael eu nodi yn y GFA. Rhaid cyflawni holl ganlyniadau'r Cynllun erbyn diwedd mis Mawrth 2033.

### 4.6.1 Canlyniadau ychwanego

Yn ogystal â'r allbynnau mandadol a restrir uchod, gall prosiectau gyfrannu at ystod o ganlyniadau gan gynnwys gwell bioamrywiaeth. Gwahoddir ymgeiswyr i gynnig canlyniadau ychwanegol fel bo'n briodol, a bydd prosiectau sy'n cynnig y canlyniadau ychwanegol mwyaf yn denu sgôr uwch. Bydd y canlyniadau ychwanegol y cytunwyd arnynt ar gyfer pob prosiect, a'r dyddiadau erbyn pryd fydd angen cyflawni'r canlyniadau a'u tystiolaethu i Uchelgais Gogledd Cymru, yn cael eu nodi yn y GFA. Rhaid cyflawni holl ganlyniadau ychwanegol y Cynllun erbyn diwedd mis Mawrth 2033.

## 4.7 Gweithgareddau a Chostau Anghymwys

Nid yw'r gweithgareddau a'r costau isod yn gymwys i gael cymorth grant (efallai na fydd y rhestr hon yn gynhwysfawr):

- Unrhyw daliad i gyflenwr nad yw'n cael ei gaffael yn unol ag egwyddorion caffael Uchelgais Gogledd Cymru.
- Unrhyw gyfranogiad gan werthwr risg uchel fel y'i diffinnir yng nghyngor y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar ddefnyddio offer gan werthwyr risg uchel yn rhwydweithiau telathrebu'r DU: https://www.ncsc.gov.uk/guidance/ncsc-advice-on-the-use-of-equipment-from-high-risk-vendors-in-uk-telecoms-networks.
- Unrhyw nwyddau neu wasanaethau sy'n tarddu o ffynhonnell Rwsiaidd neu Felarwsiaidd.
- Unrhyw weithgaredd sydd wedi dechrau neu gost a achoswyd cyn dyddiad dechrau'r prosiect a ddangosir yn y Cytundeb Cyllid Grant (GFA) ac eithrio gyda chytundeb Uchelgais Gogledd Cymru ac fel y nodir yn y GFA.
- Unrhyw weithgaredd perthnasol nad yw o fewn sgôp Amodau Hawliau Cyffredinol Ofcom neu ddarpariaeth rheoleiddiol cyfatebol.
- Costau refeniw megis costau rhedeg busnes a gorbenion nad ydynt yn uniongyrchol briodol i'r prosiect neu nad ydynt yn gymwys i gael eu cyfalafu o dan reolau cyfrifeg cwmnïau'r DU.
- Gweithgareddau arferol, gan gynnwys y rhai sy'n bodloni gofyniad statudol neu reoleiddiol (e.e. paratoi cyfrifon ariannol, ffioedd archwilio, gwasanaethau adnoddau dynol arferol ac ati).

- Taliadau banc a ffioedd cyllid eraill, a llog dyled
- TAW y gellir ei adennill
- Cronfeydd Wrth Gefn
- Dibrisiant
- Unrhyw weithgaredd a allai ddwyn gwarth ar enw da Uchelgais Gogledd Cymru neu unrhyw un o'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru.

# 5 Cymorth I Ymgeiswyr

## 5.1 Gweminar Briffio

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnal gweminar briffio ar **14 Gorffennaf 2026** i gyflwyno'r cynllun a thynnu sylw at achosion defnydd Technoleg Di-wifr Uwch o fannau eraill. Gallwch gofrestru ar gyfer y gweminar trwy wefan Uchelgais Gogledd Cymru..

## 5.2 Cwestiynau Eglurhad

Gellir anfon cwestiynau at digidol@uchelgaisgogledd.cymru dim hwyrach na'r Dyddiad Cau a nodir yn yr Amserlen yn 1.6.

Fel rhan o gynllun Rhanbarth Arloesi 5G Cyngor Dinas Belfast, datblygwyd Pecyn Cymorth Mabwysiadu i ddarparu gwybodaeth ymarferol ar fabwysiadu technoleg dTechnoleg Di-wifr Uwch, achosion defnydd enghreifftiol a gwybodaeth am yr ecosystem dTechnoleg Di-wifr Uwch leol. Rydym wedi cael caniatâd i rannu'r pecyn cymorth i gefnogi buddiolwyr y cynllun hwn:

- Llyfryn Mabwysiadu 5G

# 6 Proses Ymgeisio

## 6.1 Trosolwg

Bydd y Cynllun yn gweithredu mewn cyfres o rowndiau ariannu, gyda phob rownd yn rhedeg dros gyfnod o 6-12 mis. Y bwriad yw i'r rownd gyntaf agor ym mis Mehefin 2026 a bydd y dyddiadau allweddol ar gyfer y rowndiau dilynol yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw. Gellir ystyried cymeradwyo datganiadau o ddiddordeb yn gyflymach os yw'r ymgeiswyr yn cynnig cyflawni'r gwaith yn gynt ac ar risg isel.

Mae pob rownd ariannu yn cynnwys cam mynegi diddordeb (EOI) a cham ymgeisio. Mae cyfnod o 6 wythnos ar gyfer cyflwyno EOIs ac yna cyfnod asesu lle bydd ymgeiswyr y mae eu EOIs wedi'u cymeradwyo yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais.

Mae'r cam ymgeisio ym mhob rownd ariannu yn dechrau pan fydd ymgeiswyr y mae eu EOIs wedi'u cymeradwyo wedi cael eu hysbysu a'u gwahodd i gyflwyno cais. Mae ffenestr 6 wythnos ar gyfer cyflwyno ceisiadau ac ar ôl hynny bydd pob cais yn cael ei asesu, a bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ba geisiadau fydd yn cael cynnig grant.

Ni all Uchelgais Gogledd Cymru dderbyn cais oni bai bod EOI ar gyfer yr un prosiect wedi'i gyflwyno gan yr un ymgeisydd a'i gymeradwyo yn y rownd honno. Nid oes proses apêl yn y cam EOI na'r cam ymgeisio, ond cynigir adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus, a chroesawir rhagor o EOIs gan ymgeiswyr aflwyddiannus mewn rowndiau cyllido dilynol.

## 6.2 Cam Mynegi Diddordeb (EOI)

### 6.2.1 Cyflwyniad EOI

Mae ffurflenni EOI ar gael drwy'r gwasanaeth Gov.UK Dod o hyd i grant https://www.find-government-grants.service.gov.uk/. Rhaid cyflwyno EOIs ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno, sef 6 wythnos ar ôl i'r rownd ariannu agor. Cysylltwch â thîm Uchelgais Gogledd Cymru ar y cyfeiriad e-bost hwn os ydych eisiau trafod eich EOI cyn i chi gyflwyno - digidol@uchelgaisgogledd.cymru

### 6.2.2 Asesiad EOI

Bydd EOIs yn cael eu hasesu gan Uchelgais Gogledd Cymru yn unol â'r egwyddorion a'r meini prawf a nodir yn 2. Os oes gan dîm asesu Uchelgais Gogledd Cymru unrhyw ymholiadau am yr EOI neu angen mwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd, byddant yn cysylltu â'r person a enwir yn y ffurflen EOI.

### 6.2.3 Penderfyniad EOI

Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu am ganlyniad eu EOI ar neu y dyddiad cyhoeddi, neu cyn hynny, a bydd y sawl y mae eu EOIs wedi'u cymeradwyo yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais. Bydd ymgeiswyr nad yw eu EOIs yn cael eu cymeradwyo yn cael adborth ac mae croeso iddynt gyflwyno EOI newydd mewn rownd ariannu ddilynol, ond nid oes proses apelio.

## 6.3 Cyfnod Ymgeisio

### 6.3.1 Cyflwyno cais

Dim ond sefydliadau y mae eu EOI wedi'i gymeradwyo yn y rownd ariannu bresennol all gyflwyno cais yn y rownd honno, a rhaid i'r cais fod ar gyfer yr un prosiect â'r EOI a gymeradwywyd yn y rownd honno. Gall ymgeiswyr gynnig mân newidiadau i'r prosiect yn y cam ymgeisio, megis cynyddu neu leihau costau'r prosiect neu swm y grant neu newid y canlyniadau a ragwelir. Rhaid esbonio pob newid o'r fath yn y ffurflen gais a'r cyfiawnhad a ddarperir. Ni dderbynnir unrhyw gynnydd yn swm y grant y gofynnwyd amdano neu ostyngiad yn y canlyniadau a ragwelir o fwy na 10% fel arfer. Mae ffurflenni cais ar gael drwy'r gwasanaeth Dod o hyd i Grant https://www.find-government-grants.service.gov.uk/. Rhaid cyflwyno ceisiadau ar y dyddiad cau cyhoeddedig, neu gyn hynny, sef 6 wythnos ar ôl i'r cyfnod ymgeisio agor. Cysylltwch â thîm Uchelgais Gogledd Cymru ar y cyfeiriad e-bost isod digidol@uchelgaisgogledd.cymru os ydych eisiau trafod eich cais cyn i chi gyflwyno

### 6.3.2 Asesu ceisiadau

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu gan Uchelgais Gogledd Cymru yn unol â'r egwyddorion a'r meini prawf a nodir yn Adran 2 ac os fydd gan dîm asesu Uchelgais Gogledd Cymru unrhyw ymholiadau gyda'r cais neu angen mwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd, byddant yn cysylltu â'r person a enwir yn y ffurflen gais.

### 6.3.3 Penderfyniad ar y cais

Ar ôl asesu'r ceisiadau, bydd penderfyniadau i ddyfarnu grantiau neu beidio yn cael eu gwneud yn unol â chynllun dirprwyo Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu am ganlyniad eu cais ar neu cyn y dyddiad cyhoeddi, a rhoddir GFA i'r rhai y mae eu ceisiadau wedi'u cymeradwyo. Bydd ymgeiswyr nad yw eu ceisiadau yn cael eu cymeradwyo yn cael adborth ac mae croeso iddynt gyflwyno EOI newydd mewn rownd ariannu ddilynol, ond nid oes proses apelio.

# 7 Asesiad

## 7.1 Sut Fydd Ceisiadau'n Cael eu Hasesu

Mae'r Cynllun Grant wedi'i gynllunio i fod yn deg, yn dryloyw ac yn wrthrychol. Bydd ceisiadau ar gyfer y gystadleuaeth yn cael eu hasesu drwy'r camau canlynol:

### 7.1.1 Cymhwysedd

Bydd yr aseswr cymhwysedd yn asesu'r gwiriad cymhwysedd cychwynnol gan ddefnyddio cwestiynau pasio/methu i sicrhau bod y sefydliad a'r prosiect yn bodloni'r meini prawf sylfaenol. Os bydd cais yn pasio'r Cam Cymhwyso, bydd yn symud ymlaen i werthusiad. Os nad yw cais yn pasio'r Cam Cymhwyso, ni fydd y cais yn cael ei asesu. Byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd gydag esboniad pam. Gall cyflwyno'r EOI yn gynnar ganiatáu iddo gael ei ddiwygio, ei ailgyflwyno a'i adolygu cyn y dyddiad cau cyflwyno.

### 7.1.2 Triage

Gall Uchelgais Gogledd Cymru roi ceisiadau trwy broses *triage* os yw'n derbyn nifer uchel o geisiadau. Os bydd yn penderfynu gwneud hynny, bydd aelodau'r panel asesu yn adolygu ac yn sgorio'r cwestiynau asesu *triage* ar gyfer ceisiadau sy'n pasio'r cam Cymhwyso. Bydd y panel yn cyfarfod mewn sesiwn gymedroli i gytuno ar sgôr panel sengl ar gyfer pob cwestiwn *triage* i bob cais. Bydd unrhyw gais sy'n sgorio llai na 3 marc yn erbyn unrhyw un o'r cwestiynau *triage* yn cael ei dynnu'n ôl o'r gystadleuaeth ac ni fydd gweddill y cais yn cael ei asesu. Bydd y ceisiadau cymwys yn mynd ymlaen i'r broses Asesu Ceisiadau.

1. **Asesu Ceisiadau**: Bydd aelodau'r panel asesu yn adolygu ac yn sgorio'r cwestiynau asesu sy'n weddill ar gyfer pob cais a basiodd y cam *Triage*. Byddant yn cyfarfod mewn sesiwn gymedroli i gytuno ar un sgôr gan y panel ar gyfer pob cwestiwn ar gyfer pob cais.
   Bydd ceisiadau sy'n sgorio llai na'r isafswm sgôr sy'n ofynnol ar unrhyw gwestiwn ar ôl cymedroli yn cael eu dileu o'r gystadleuaeth.

2. **Canlyniad:** Bydd y ceisiadau cymwys yn cael eu rhestru yn nhrefn ddisgynnol Cyfanswm y Sgôr Pwysol. Bydd cyllid grant yn cael ei gynnig i'r ceisiadau cymwys sydd â'r Cyfanswm Sgoriau Pwysol uchaf nes bod y Cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio.

Bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu i'r ceisiadau sy'n cyflawni'r sgoriau cyffredinol uchaf yn erbyn y meini prawf asesu nes bod yr holl gyllideb sydd ar gael yn cael ei dyrannu. Er enghraifft, pan fydd cylch ariannu

yn derbyn sawl cais sgôr uchel, gall y panel asesu ddyfarnu cyllid i bortffolio o brosiectau sydd gyda'i gilydd yn cyflawni'r canlyniadau cyffredinol cryfaf, gan ystyried uchafswm gwerth y grant o £2m fesul prosiect.

Bydd y cynllun hefyd yn cadw hyblygrwydd i ailddyrannu neu gynyddu'r cyllid sydd ar gael i rownd benodol lle mae tystiolaeth glir o biblinell gref o brosiectau cyflawnadwy o ansawdd uchel sy'n bodloni amcanion y cynllun ac yn cynrychioli gwerth am arian.

Bydd canlyniad cais yn cael ei rannu gyda'r ymgeisydd. Lle bo hynny'n briodol, rhoddir awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r cais er mwyn caniatáu ailgyflwyno yn y dyfodol.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am eglurhad a chywiriadau ychwanegol ar ôl y dyddiad cau. Rhaid i wybodaeth ychwanegol a gyflwynir ar gais Uchelgais Gogledd Cymru fodloni unrhyw ofynion amser, fformat a hyd y nodir gennym ar y pryd.

Os yw cyfanswm y cyllid y gofynnir amdano gan fidiau sy'n bodloni'r safon ofynnol yn fwy na Chyfanswm y Cyllid sydd ar Gael, gellir rhoi rhai bidiau ar restr wrth gefn. Os bydd cyllid ychwanegol ar gael yn ddiweddarach i gynyddu'r Cyfanswm Cyllid sydd ar Gael, bydd rhagor o grantiau yn cael eu cynnig i'r ceisiadau sydd â'r Cyfanswm Sgoriau Pwysol uchaf nesaf yn yr un modd.

#### 7.1.3 Gwelliant parhaus a gwerthuso allanol

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn adolygu'r Cynllun yn barhaus yn ystod y cyfnod cyflawni i wneud addasiadau allai wella gwerth am arian ac effaith. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn comisiynu gwerthusiad allanol diwedd prosiect a fydd yn gofyn am gydweithrediad derbynwyr grantiau.

### 7.2 Methodoleg Sgorio

Bydd ymatebion i gwestiynau y cais llawn yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r fethodoleg sgorio a ganlyn:

| Sgôr | Disgrifiad |
|---|---|
| 5 - Rhagorol | Mae'r bid yn bodloni'r holl ofynion i safon eithriadol. Mae'n rhoi hyder llawn bod yr ymgeisydd yn deall y gofynion ac y bydd y prosiect yn cyflawni amcanion y gystadleuaeth. Mae'r cais yn defnyddio technolegau Technoleg Di-wifr Uwch. |
| 4 - Da | Mae'r bid yn bodloni'r holl ofynion, neu bron pob un o'r gofynion, ac yn rhagori mewn rhai rhannau o'i ymateb. Mae'n rhoi lefel dda o hyder bod yr ymgeisydd yn deall y gofynion ac y bydd y prosiect yn cyflawni amcanion y gystadleuaeth.<br><br>Mae'r bid yn disgrifio'n glir map cyflawni tuag at fabwysiadu Technoleg Di-wifr Uwch. |

| | |
|---|---|
| 3 - Boddhaol | Mae'r bid yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion ond gyda mân amheuon mewn un neu fwy o ardaloedd. Mae'n rhoi lefel foddhaol o hyder bod yr ymgeisydd yn deall y gofynion ac y bydd y prosiect yn cyflawni amcanion ac amodau'r gystadleuaeth. Mae'r ymateb yn brin o fanylion mewn rhai meysydd. |
| 2 - Gwael | Nid yw'r bid yn bodloni llawer o'r gofynion. Ychydig iawn o hyder sydd bod yr ymgeisydd yn deall y gofynion ac y bydd y prosiect yn cyflawni amcanion ac amodau'r gystadleuaeth. Nid oes ganddo fanylion sylweddol. |
| 1 - Annigonol | Nid yw'r bid yn bodloni bron pob un o'r gofynion. Nid yw'n rhoi hyder bod yr ymgeisydd yn deall y gofynion ac y bydd y prosiect yn cyflawni amcanion y gystadleuaeth. Mae'n darparu manylion cyfyngedig iawn |
| 0 - Annerbyniol/ Dim Ymateb | Nid yw'r bid yn mynd i'r afael ag unrhyw un o'r gofynion Nid yw'r ymateb yn darparu digon o fanylion i gael ei farcio. |

# 8 Monitro Ac Arfarnu

Mae'r llinell amser yn Adran 1.6 yn nodi'r dyddiadau sy'n berthnasol i'r gweithgareddau a'r cyflawniadau a ddisgrifir isod.

## 8.1 Cyflawni a Monitro Ariannol

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn monitro cyllid prosiectau a pherfformiad cyflawni i sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd priodol. Bydd yn cynnal gwiriadau amlach i fynd i'r afael ag unrhyw heriau a chefnogi llwyddiant y prosiect a chadw at yr amserlen arfaethedig. Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus sicrhau bod amser a gwybodaeth resymol ar gael ar gyfer yr adolygiadau hyn.

### 8.1.1 Cyfarfod Dechrau Prosiect (PIM)

Ar ôl i'r GFA gael ei lofnodi, cynhelir Cyfarfod Dechrau Prosiect (PIM) rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a derbynnydd y grant lle bydd trefniadau monitro ac adrodd y prosiect a'r broses hawlio yn cael eu hesbonio, a bydd cyfarfodydd adolygu cyfnodol yn cael eu trefnu.

### 8.1.2 Monitro ac adrodd prosiectau

Bydd yn ofynnol i dderbynwyr grant gyflwyno adroddiadau monitro rheolaidd i Uchelgais Gogledd Cymru mewn fformat ac ar ddyddiadau y cytunir arnynt yn y PIM.

#### 8.1.3 Newidiadau i'r prosiect

Rhaid i dderbynwyr grant hysbysu Uchelgais Gogledd Cymru cyn gynted â phosibl o unrhyw newidiadau y byddant am eu gwneud i'r prosiect gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau i unrhyw un o'r isod:

- Yr allbynnau neu'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
- Cerrig Milltir
- Dyddiad Dechrau, Dyddiad Gorffen neu Ddyddiad Cwblhau Targed
- Rhagolwg Gwariant a/neu ariannu'r Prosiect
- Buddion
- Arian cyfatebol

Bydd ceisiadau i newid yn cael eu cynnal drwy Broses Rheoli Newid Uchelgais Gogledd Cymru. Rhaid cytuno ar bob newid o'r fath yn ysgrifenedig gydag Uchelgais Gogledd Cymru cyn dod i rym.

Pan fo'r newidiadau y cytunwyd arnynt yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn cwmpas, allbynnau, canlyniadau neu arian cyfatebol, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i leihau lefel y grant a ddyfarnwyd a/neu geisio adennill (clawback) cyllid grant, yn unol â thelerau'r Cytundeb Cyllid Grant.

Pan gymeradwyir newidiadau, ystyrir bod y Cytundeb Cyllid Grant yn cael ei amrywio i adlewyrchu'r sefyllfa y cytunwyd arni trwy gyfnewid gohebiaeth ysgrifenedig.

### 8.2 Monitro Buddion

Mae'n ofynnol i Uchelgais Gogledd Cymru ddarparu adroddiadau mewnol ar gynnydd prosiectau. Bydd amserlen ar gyfer hyn yn cael ei gosod ar adeg y Cynnig Grant, ond fel canllaw bydd hyn yn digwydd yn chwarterol a bydd y wybodaeth ofynnol yn cael ei chadarnhau ar adeg y Cynnig Grant.

Bydd derbynnydd y grant ac Uchelgais Gogledd Cymru yn cytuno ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAu) buddion sy'n benodol i'r prosiect a'u hachosion defnydd e.e. buddion economaidd (megis cynnydd mewn cynhyrchiant, arbedion cost ac ati), effeithlonrwydd, gwelliannau lles (gwelliannau diogelwch ac ati), buddion diogelwch ac ati a'r amserlen ar gyfer adrodd yn erbyn y DPA.

Bydd disgwyl i Dderbynnydd y Grant hefyd gyfrannu at rannu gwybodaeth, a gynhyrchir o'u prosiect a darparu unrhyw ddata perthnasol i Uchelgais Gogledd Cymru i gefnogi'r adroddiadau chwarterol, gan gynnwys:

- nifer a math yr achosion defnydd a ddefnyddir
- nifer y rhwydweithiau neu dechnolegau di-wifr newydd a ddefnyddir fel rhan o'r prosiect ac os ydynt yn parhau i weithredu ar ddiwedd y prosiect
- nifer a math y cwmnïau/sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y prosiect
- unrhyw gyllid amgen a gynhyrchir gan y prosiect
- swyddi a/neu brentisiaethau newydd a grëwyd drwy'r prosiect

- nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi
- gweithgareddau lledaenu gwybodaeth (megis gweithdai a digwyddiadau)
- unrhyw weithgareddau cyfathrebu eraill, e.e. PR

Os nad yw prosiect yn bodloni ymrwymiadau GVA neu greu swyddi, bydd ad-daliad sy'n gymesur â'r diffyg yn berthnasol. Rhaid i bob derbynnydd gymryd rhan mewn gweithgareddau adrodd, astudiaethau achos, a gwersi a ddysgwyd.

### 8.3 Gwersi a Ddysgwyd

Bydd Derbynnydd y Grant yn cyfrannu at log gwersi a ddysgwyd a fydd yn cofnodi'r gwersi sy'n dod i'r amlwg o'r rhaglen a'r prosiectau Digidol. Mae hyn yn cynnwys gwersi yn benodol ar gyfer eich prosiect yn ogystal â'r rhai a allai fod yn berthnasol i'r ecosystem ehangach, Uchelgais Gogledd Cymru.

Bydd y gwersi hyn yn helpu i lywio gwaith prosiect yn y dyfodol, rhannu dysgu ar draws y diwydiant a llywio penderfyniadau polisi o fewn Uchelgais Gogledd Cymru.

### 8.4 Astudiaethau Achos

Rhaid i dderbynwyr grant ddatblygu astudiaeth achos prosiect y gall Uchelgais Gogledd Cymru ei chyhoeddi i rannu dysg a mewnwelediadau ar achosion defnydd gyda'r diwydiant ehangach. Darperir templed astudiaeth achos gan Uchelgais Gogledd Cymru.

### 8.5 Gwelliant Parhaus a Gwerthuso Allanol

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn adolygu'r Cynllun yn barhaus yn ystod y cyfnod cyflawni i wneud addasiadau allai wella gwerth am arian ac effaith.  Bydd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn comisiynu gwerthusiad allanol diwedd prosiect a fydd yn gofyn am gydweithrediad derbynwyr grantiau.

## 9 Cyd-Destun Polisi A Rhaglen

Cyhoeddodd Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg Llywodraeth y DU (DSIT) Strategaeth Seilwaith Di-wifr y DU ym mis Ebrill 2023, a oedd yn nodi'r fframwaith strategol ar gyfer datblygu, defnyddio a mabwysiadu 5G a rhwydweithiau yn y dyfodol. Mae'n mynegi gweledigaeth ar gyfer sut y gall seilwaith Technoleg Di-wifr Uwch fod yn rhan annatod o wead economi a chymdeithas y DU erbyn 2030, a sut yr ydym eisiau i bobl, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus ledled y DU wireddu buddion llawn 5G a chysylltedd Technoleg Di-wifr Uwch arall.

Mae Cynllun Sector Digidol a Thechnolegau Llywodraeth y DU yn disgrifio mwy ar rôl Technolegau Cysylltedd Uwch wrth ddarparu buddion i bobl a busnesau.

## 10 Gwybodaeth A Chanllawiau Ychwanegol

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o ofynion Deddf Telathrebu (Diogelwch) 2021 a gyflwynodd ddyletswyddau ar ddarparwyr rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu electronig cyhoeddus i nodi a lleihau'r risg o beryglon diogelwch a pharatoi ar gyfer y posibilrwydd y byddant yn codi.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswyddau ar ddarparwyr i atal, unioni neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol yn sgil peryglon diogelwch. Bwriad y dyletswyddau diogelwch trosfwaol hyn yw darparu sylfaen effeithiol a pharhaol ar gyfer diogelu rhwydweithiau a gwasanaethau.

Dylai ymgeiswyr ystyried seiberddiogelwch unrhyw asedau newydd a ddefnyddir. Felly, anogir ymgeiswyr i ddarllen a gweithredu'r canllawiau *Secure Connected Places* perthnasol yn [Secure connected places playbook - GOV.UK (www.gov.uk)] sy'n darparu cyngor i osod sylfaen seiberddiogelwch gref. Mae'r Llawlyfr yn ategu canllawiau seiberddiogelwch presennol NCSC megis *Connected Places Cyber Security Principles* yn [Connected Places Cyber Security Principles - NCSC.GOV.UK], ffynhonnell arall o ganllawiau technegol y mae ymgeiswyr hefyd yn cael eu hannog i'w darllen a'u gweithredu.

Cadwn yr hawl i gynnal arfarniad ariannol a thechnegol manwl o bob ymgeisydd a'i gynnig ac i'r broses hon barhau hyd at ddyfarnu unrhyw gyllid grant. Bydd unrhyw arfarniad o'r fath yn cael ei gynnal yn unol â pholisi'r llywodraeth ar adeg yr asesiad. Gall arfarniad pellach barhau os oes angen trwy gydol y cyfnod cyllid grant.

Nid yw ac ni fydd Uchelgais Gogledd Cymru nac unrhyw un o'i asiantau neu gynghorwyr yn rhoi unrhyw gynrychiolaeth, gwarant neu ymrwymiad, ar goedd neu wrth awgrymu hynny, mewn perthynas â'r wybodaeth a gynhwysir mewn deunydd cystadleuaeth, gan gynnwys mewn perthynas â'i chywirdeb neu ei chyflawnrwydd.

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ddogfen hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth, yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU.

Os ydych am i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol bod yn ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus, yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gydymffurfio â chod ymarfer statudol sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachol, ymhlith pethau eraill. O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam yr hoffech i'r wybodaeth honno gael ei thrin yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais am ddatgelu'r wybodaeth honno, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Dylid anfon ceisiadau o'r fath at

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn prosesu eich data personol yn unol â'r DPA a'r GDPR ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Mae pob ymgeisydd yn llwyr gyfrifol am yr holl gostau a threuliau a gyfyd ym mhob cam sy'n gysylltiedig â'r broses ddethol hon. Ni fydd Uchelgais Gogledd Cymru, dan unrhyw amgylchiadau, yn atebol am unrhyw gostau neu dreuliau a delir gan neu ar ran yr ymgeisydd neu unrhyw barti sy'n gysylltiedig â'r broses ddethol hon.

Cadwn yr hawl i ganslo'r gystadleuaeth ar unrhyw adeg. Ni fyddwn yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golledion a achosir wrth ganslo'r gystadleuaeth hon nac unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu cyllid o ganlyniad i'r gystadleuaeth.

Ar unrhyw adeg cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn cynigion, rydym yn cadw'r hawl i ddiwygio, ychwanegu neu dynnu'n ôl y cyfan neu unrhyw ran o ddeunydd y gystadleuaeth ar unrhyw adeg yn ystod y gystadleuaeth. Bydd unrhyw ddiwygiadau, ychwanegiadau neu ddileu o'r fath yn cael eu nodi yn y ddogfennaeth ar dudalen we'r gystadleuaeth.

Gellir cyflwyno atebion yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd ymgeiswyr yn cael eu trin yn llai ffafriol ar sail yr iaith y maent yn ei defnyddio i gyflwyno'u cais. Dylai ymgeiswyr nodi pan nad oes fersiwn Gymraeg neu Saesneg ar gael o ddogfennau ategol, y dylid darparu cyfieithiadau ardystiedig i Saesneg gyda'r cynnig (os yw hynny'n berthnasol) ac ar gost yr ymgeisydd.

Dylai cynigion aros yn ddilys am gyfnod o 120 diwrnod o ddyddiad cau'r gystadleuaeth. Gellir gwrthod cynnig sy'n ddilys am gyfnod byrrach.

Cadwn yr hawl i drafod, at ddibenion eglurhad, unrhyw agwedd ar gynnig gyda'r ymgeisydd perthnasol cyn dyfarnu cyllid grant.

## 11 Atodiadau

Atodiad 1. Templed Cytundeb Cyllid Grant

Atodiad 2. Proses Hawlio Grantiau Ariannol

Atodiad 3. Nodyn Preifatrwydd